

Ynys Bŷr

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER/HYD: LLWYBR Y COETIR (gwyrd) 0.9 milltir (1.4km) 30 munud
 LLWYBR Y GOLEUDY (glas) 1.4 milltir (2.3km) 45 munud
 LLWYBR CLOGWYNI'R GORLLEWIN (coch) 1.9 milltir (3.1km) 1 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Ffoniwch Ganolfan Groeso Dinbych-y-pysgod 01437 775603 am fanylion ynghylch bys, trenau, meysydd parcio, parcio a theithio

CYMERIAD: Taith ynys, graddfa hawdd

CHWILIWCH AM: Golygfeydd naturiol trawiadol • goleudy • man gwneud persawr • eglwys Sant Illtud • adeiladau'r Mynachdy (caeadle preifat - dim mynediad) • blodau'r Gwanwyn • morloi


MWY O WYBODAETH: Caniateir cŵn ar yr ynys ond rhaid eu cadw ar dennyn ar bob adeg. Ffoniwch harbwr Dinbych-y-pysgod (01834 842296) i gael amserau/diwrnodau croesi'r llongau ayb.

ALLWEDD

- Llwyr y Coetir
- Llwyr y Goleudy
- Llwyr Clogwyni'r Gorllewin
- Cyfeiriad y Cyfeirbwyntiau
- WC Toileddau Cyhoeddus

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwyr Arfordirol
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb *Priory Bay*
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu



Ynys Bŷr

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Llwybr y Coetir (gwyrdd) 0.9 milltir (1.4km) 30 munud

Llwybr y Goleudy (glas) 1.4 milltir (2.3km) 45 munud

Llwybr Clogwyni'r Gorllewin (coch) 1.9 milltir (3.1km) 1 awr

Cludiant cyhoeddus: Ffoniwch Ganolfan Groeso Dinbych-y-pysgod 01437 775603 am fanylion ynghylch bysys, trenau, meysydd parcio, parcio a theithio.

Cyfeirnod map: SS140965

Ar brynhawn cynnes o Haf, pan mae'r aer yn fwrlwm o weny yn brysur wrth eu gwaith wrth y blodau comffri, does unman yn debyg i Ynys Bŷr. Mae yma awryglych hamddenol, ymlaciedig.

Prin daih 20 munud o Ddinbych-y-pysgod, mae'r ynys yn lle gwych i gerdded yn hamddenol ac mae yma ddigon i'w weld. Mae gan yr ynys hanes hir; mae pobl wedi bod yn byw yn ei ogofau ers Oes y Cerrig, ond cyrhaeddiad meudwy o'r enw Sant Pyro yn y 6ed ganrif a ddechreuodd gysylltiad hir Ynys Bŷr gyda'r eglwys.

Daw'r enw Cymraeg am yr ynys o'r geiriau Ynys Pyr, neu Ynys Pyro. Rhoddwyd yr enw Saesneg 'Caldey' ar yr ynys gan y Llychlynwyr ac mae'n golygu Ynys Oer.

Ar ôl y goncwest Normanaidd, sefydlodd mynachod Benedictaidd briordy ar Ynys Bŷr. Ar ôl yr ailffurfio, newidiodd yr ynys ddwylo dro ar ôl tro, ond yn 1906 daeth yn gartref i'r urdd Fenedictaidd unwaith eto.

Nhw a adeiladodd y fynachlog sydd mewn arddull Mediteranaidd, ond yn 1928 gwerthwyd yr ynys unwaith eto i urdd Sistersaidd. Mae'n dal i fod yn gymuned fynachaid weithiol.

Mae llawer o'r llwybr yn pasio trwy goetir, gyda digon o adar i'w gweld. Yr Hen Briordy, sy'n sefyll yn agos at y llwybr yng nghanol y coed, yw un o'r eglwysi hynaf yng Nghymru.

Am ynys mor fach, mae gan Ynys Bŷr amrywiaeth eang o gynefinoedd. Mae ei daeareg yn gymysglyd iawn gyda rhan o'r ynys yn Hen Dywodfaen a rhan ohoni yn garreg galch Carbonifferaidd. O ganlyniad, mae yna bridd asid ac alcalinaidd, sy'n cynhyrchu sioe odidog o flodau.

Efallai bod rhai'n dal i ffynnu heddiw diolch i ofal y mynachod canoloesol. Er enghraifft, weithiau gelwir comffri yn cwlwm yr asgwrn oherwydd fe fyddai llysieuwyr yn ei ddefnyddio i drin esgyrn wedi eu torri.

Mwy o wybodaeth: Caniateir cŵn ar yr ynys ond rhaid eu cadw ar dennyn ar bob adeg. Ffoniwch harbwr Dinbych-y-pysgod (01834 842296) i gael amserau/diwrnodau croesi'r llongau ayb.

